

Ar garreg eich drws

Pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol
drwy wasanaethau dosbarthu i'r cartref



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol



Alcohol Concern

Alcohol Concern yw'r asiantaeth genedlaethol ar gamddefnyddio alcohol, gan ymgyrchu dros bolisiau alcohol effeithiol a gwell gwasanaethau i bobl sy'n byw gyda phroblemau sy'n ymwneud ag alcohol.

Our work in Wales

Agorodd Alcohol Concern ei swyddfa yng Nghaerdydd yn 2009. Mae Alcohol Concern Cymru yn canolbwyntio ar bolisi ac iechyd cyhoeddus yng Nghymru, gan weithio i leihau'r niwed y mae alcohol yn ei achosi.

Ysgrifennwyd y gwaith hwn gan Mark Leyshon ac fe'i hariannwyd gan Alcohol Concern.

Cynhaliwyd y gwaith arolygu gan RMG: Grŵp Ymchwil a Marchnata yn ystod Ionawr a Chwefror 2013.

Cyhoeddwyd gan

Alcohol Concern,
Suite B5, West Wing, New City Cloisters,
196 Old Street, Llundain, EC1V 9FR
Ffôn: 020 7566 9800
E-bost: contact@alcoholconcern.org.uk,
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Ar ran

Alcohol Concern Cymru,
8 Museum Place,
Caerdydd, CF10 3BG
Ffôn: 029 2022 6746
E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk/cymru

Hawlfraint: Alcohol Concern Mehefin 2013

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw, na'i throsglwyddo drwy unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwyr a deiliaid yr hawlfraint. Darparwyd y llun ar y clawr gan iStockphoto.com

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.

Cynnwys

Tudalen

Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	5
Alcohol a phobl ifanc	6
Gwirio oedran	7
Alcohol a gwasanaethau dosbarthu i'r cartref	8
Astudiaeth Alcohol Concern Cymru	9
Profion prynu	10
Trafodaeth ac argymhellion	12
Cyfeiriadau	14

Crynodeb gweithredol

Mae yfed dan oed yn dal i fod yn destun pryder difrifol yng Nghymru. Er ei bod yn anghyfreithlon gwerthu alcohol i bobl dan 18 oed, mewn gwirionedd, mae modd i blant a phobl ifanc gael gafael ar alcohol, naill ai trwy oedolion sy'n ei brynu drostynt, neu'n uniongyrchol eu hunain.

Nid yw gwasanaethau bwyd archfarchnadoedd ar-lein, na gwasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref bob awr o'r dydd a'r nos wedi cael llawer o sylw hyd yma fel ffynhonnell alcohol bosibl i bobl dan oed. Yn ystod Ionawr a Chwefror 2013, cynhaliwyd arolwg ar-lein, ar ran Alcohol Concern Cymru, o bron i 1,000 o bobl yng Nghymru rhwng 14 a 17 oed, er mwyn canfod faint roeddynt yn defnyddio'r fath wasanaethau.

O blith y 636 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu alcohol neu wedi ceisio ei brynu o'r blaen iddynt hwy eu hunain neu i rywun arall, dywedodd 15 y cant eu bod wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein, a dywedodd dau draean o'r rhain ei bod yn "hawdd" gwneud hynny. Yn yr un modd, dywedodd 13 y cant eu bod wedi prynu alcohol yn llwyddiannus dros y ffôn gan wasanaeth dosbarthu i'r cartref, ac unwaith eto dywedodd dau draean o'r rhain ei bod yn "hawdd" gwneud hynny. Dewiswyd gwasanaethau dosbarthu alcohol ar-lein a thros y ffôn gan lawer, gan eu bod yn eu hystyried yn ffyrdd hawdd i osgoi gorfod profi eu hoedran, ac yn ffordd gyflym a chyfleus i gael alcohol.

Ym mis Mawrth 2013, cynhaliodd Heddlu De Cymru brofion prynu yng Nghaerdydd, gan ddefnyddio pobl ifanc 15 oed, er mwyn canfod a oeddent yn gallu prynu alcohol o wefannau bwyd archfarchnadoedd mawr. Canfuwyd y gellid prynu alcohol ar-lein yn gymharol hawdd, drwy gytuno i'r telerau ac amodau a nododd eu bod yn 18 oed neu'n hyn, a bod ganddynt gerdyn debyd a chyfeiriad e-bost. Mewn 44 y cant o'r profion, rhoddwyd alcohol i'r prynwyr prawf yn bersonol heb ofyn iddynt am brawf o'u hoedran.

Dengys canlyniadau ein harolwg fod lleiafrif sylweddol o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael alcohol drwy wefannau archfarchnadoedd a gwasanaethau dosbarthu i'r cartref, ac mae profion prynu'r heddlu'n awgrymu nad yw polisïau dilysu oedran yn cael eu dilyn yn ddigonol. Felly mae Alcohol Concern yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1

Dylai archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill sy'n darparu gwasanaeth dosbarthu alcohol i'r cartref adolygu eu gweithdrefnau dilysu oedran ar gyfer yr adeg gwerthu a'r adeg dosbarthu, er mwyn canfod a ydynt yn gweithio. Dylai manwerthwyr roi sylw arbennig i egluro i gwsmeriaid bod yn rhaid i archebion sy'n cynnwys alcohol gael eu derbyn gan oedolyn. Dylai manwerthwyr sicrhau bod staff dosbarthu yn cael hyfforddiant priodol am y weithdrefnau yn ymwneud â gofyn am brawf oedran priodol a'i gadarnhau, a dylent gadw at y gweithdrefnau hyn bob tro.

Argymhelliad 2

Dylid cynnal rhagor o ymchwil i weld faint o blant a phobl ifanc sy'n prynu alcohol ar-lein a/neu dros y ffôn. Argymhellir cynnal profion prynu ehangach gan heddluoedd a swyddogion safonau masnach.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Prydain adolygu effeithiolrwydd y gyfraith drwyddedu gyfredol sy'n ymwneud â dosbarthu alcohol i'r cartref, er mwyn canfod a yw'n diogelu plant a phobl ifanc yn ddigonol rhag niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Cyflwyniad

Mae goblygiadau negyddol goryfed yn un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu Cymru. Mae 30,000 o ddyddiau gwely ein hysbytai'n ymwneud â chanlyniadau yfed alcohol,¹ ac mae cost clefydau cronig sy'n gysylltiedig ag alcohol a digwyddiadau aciwt i'r gwasanaeth iechyd rhwng £70 ac £85 miliwn bob blwyddyn.²

Un testun pryder penodol yw peryglon camddefnyddio alcohol ymhlith pobl ifanc, a chydabuwyd ers peth amser y dylai rheoli sut mae plant a phobl ifanc yn cael gafael ar gynhyrchion alcoholaidd fod yn flaenoriaeth. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu ymdrechion mawr i blismona gwerthu alcohol i bobl dan oed, gyda dirwyon trymach i fanwerthwyr sy'n cael eu dal yn gwerthu alcohol i bobl ifanc dan 18 oed.

Er gwaethaf ymgyrchoedd o'r fath, dengys y dystiolaeth fod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar alcohol o hyd mewn amryw ffyrdd. Er hynny, un dull prynu nad yw wedi cael llawer o sylw hyd yma yw gwasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y potensial i wasanaethau gan gwmnïau dosbarthu alcohol pwrpasol a chan archfarchnadoedd ar-lein ddod yn gyfrwng amgen neu ychwanegol i bobl dan oed brynu alcohol. Mae'n cynnwys canlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan Alcohol Concern Cymru o bobl ifanc 14–17 oed yng Nghymru, a chanlyniadau profion prynu gan Heddlu De Cymru.

Alcohol a phobl ifanc

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y mae pobl ifanc ym Mhrydain yn yfed a faint y maent yn ei yfed. At ei gilydd, mae mwy o bobl ifanc yn llwrymwrthod ag alcohol; ar y llaw arall, ymhlith y rhai sy'n yfed, mae'n debyg bod mwy o alcohol yn cael ei yfed.³

Yng Nghymru, mae yfed dan oed yn dal i fod yn destun pryder difrifol. Yn ôl yr ystadegau:

- Mae 40 y cant o bobl ifanc 15 oed yn yfed alcohol bob wythnos⁴
- Dywed 20% o bobl ifanc 15 oed eu bod wedi meddwi am y tro cyntaf pan oeddent yn 13 oed neu'n iau⁵
- Ers 1990 mae faint o alcohol a gaiff ei yfed gan bobl ifanc 11 i 15 oed wedi dyblu⁶
- Yn 2011-12 cafwyd 830 o atgyfeiriadau ar gyfer triniaeth am gamddefnyddio alcohol ymhlith cleifion 19 oed ac iau⁷

Mae canlyniadau andwyol posibl yfed alcohol gan bobl dan oed yn cynnwys gorfod mynd i'r ysbyty, perfformiad gwael yn yr ysgol, profiadau rhywiol y maent yn ei ddifaru wedyn, a throsteddu,⁸ yn ogystal â mwy o berygl o broblemau yn ymwneud ag alcohol yn y dyfodol.⁹ Yn 2010, argymhellodd Prif Swyddog Meddygol Cymru y dylai plant dan 15 oed osgoi alcohol yn llwyr, oherwydd tystiolaeth y gall niweidio'r ymennydd, yr esgyrn a'r hormonau sy'n datblygu, gan rybuddio hefyd y gall defnydd trwm o alcohol ymhlith pobl yn eu harddegau hwyr fod yn beryglus i iechyd.¹⁰ O ganlyniad, derbynnir yn gyffredinol bellach fod angen rheoleiddio'n gadarn y cyfleoedd i blant a phobl ifanc gael gafael ar alcohol.

Sut mae pobl ifanc yn cael gafael ar alcohol?

O dan gyfraith y Deyrnas Unedig, mae'n anghyfreithlon i unrhyw un dan 18 oed brynu alcohol, neu geisio ei brynu mewn tafarn, siop drwyddedig, archfarchnad neu safle gwerthu alcohol arall, neu i unrhyw un brynu alcohol i rywun dan 18 oed i'w yfed mewn tafarn neu fan cyhoeddus. (Yr unig eithriad yw bod pobl ifanc 16 neu 17 oed yn cael yfed cwrw, gwin neu seidr gyda phryd o fwyd wrth fwrdd os caiff ei brynu gan oedolyn a'u bod yng nghwmni oedolyn.)¹¹ Yn yr un modd, mae person yn cyflawni trosedd os yw'n gwerthu alcohol i blentyn dan 18 oed.¹²

Mewn gwirionedd, gall plant a phobl ifanc dan 18 oed yng Nghymru gael gafael ar alcohol, ac mae'n eglur eu bod yn gwneud hynny. Yn wir, canfu arolwg o ddefnydd pobl ifanc o wasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref yng Nghymru, ar ran Alcohol Concern Cymru yn 2013, fod hanner yr ymatebwyr yn dweud ei bod yn "hawdd" prynu alcohol (gweler rhagor isod). Mae ymchwil arall wedi dangos mai'r ffordd fwyaf cyffredin a ddefnyddir gan y grŵp oedran hwn i gael gafael ar alcohol yw drwy oedolyn, hynny yw, drwy'u rhieni (gyda'u caniatâd neu hebddo) ac, yn enwedig yn achos pobl ifanc yn eu harddegau hŷn, drwy'u ffrindiau neu drwy ofyn i oedolyn arall ei brynu iddynt.¹³

Er hynny, mae niferoedd sylweddol o bobl ifanc dan 18 oed yn prynu eu halcohol eu hunain yn uniongyrchol. Canfu astudiaeth ddiweddar o bron 10,000 o bobl ifanc 15-16 oed ledled Gogledd-Orllewin Lloegr, er enghraifft, fod chwarter (28%) o'r yfwr yn dweud eu bod wedi prynu alcohol eu hunain, gyda 44% ohonynt wedi gwneud hynny heb i'w hoedran erioed gael ei wirio gan werthwyr alcohol.¹⁴

Gwirio oedran

Yn hanesyddol, nid yw ymdrechion i blismona gwerthu alcohol i bobl dan oed wedi cael eu cydlynu'n dda, ond yn y degawd diwethaf gwelwyd mwy o waith gwirio oedran a chodi ymwybyddiaeth wedi'u hanelu at sicrhau bod staff manwerthu yn cadw at y rheolau a'r prosesau angenrheidiol.¹⁵ Mae ymchwil gan Serve Legal a Phrifysgol Plymouth yn awgrymu y caiff gwiriadau dan oed eu gwneud yn awr bob tair i bedair gwaith y bydd person ifanc yn ceisio prynu alcohol.¹⁶

Yn 2009-10 yng Nghymru, trefnodd swyddogion Safonau Masnach 1,121 o brofion prynu gan wirfoddolwyr ifanc, yn bersonol mewn safleoedd manwerthu all-fasnach. Mewn 147 achos (13%) llwyddwyd i brynu alcohol. Canfuwyd bod y gwerthwr wedi gofyn am brawf oedran mewn 89% o'r profion. Canfuwyd mai gorsafoedd petrol oedd y manwerthwyr a oedd fwyaf tebygol o werthu alcohol; 'masnachwyr eraill' oedd nesaf (a oedd yn cynnwys swyddfeydd post, manwerthwyr disgownt, siopau rhentu fideos a safleoedd bwyd brys), wedyn siopau papurau newydd a siopau cyfleustra.¹⁷

Yn y fewnfasnach (tafarndai a chlybiau), bu 216 o brofion gan wirfoddolwyr ifanc, ac mewn 91 o'r rhain (42%) llwyddwyd i brynu alcohol. Dim ond mewn 55% o'r holl brofion y gofynnwyd am brawf oedran.¹⁸

Mae amryw gynlluniau a mentrau wedi'u datblygu a'u mabwysiadu sy'n cael eu hystyried arfer da ym maes manwerthu alcohol. Efallai mai'r un mwyaf perthnasol i fynd i'r afael â gwerthu i bobl dan 18 oed yw 'Challenge 21', a ddatblygwyd gan y Grŵp Safonau Manwerthu Alcohol yn 2006 i ddiogelu staff sy'n gweini alcohol drwy sicrhau bod polisi ar waith lle y gofynnir i bob cwsmer sy'n ymddangos fel pe bai dan 21 oed brofi ei oedran pan fydd yn ceisio prynu alcohol. Mae 'Challenge 25', a lansiwyd yn 2009, yn ehangu'r diogelwch hyn ymhellach fyth ac fe'i mabwysiadwyd gan rannau mawr o'r allfasnach, gan gynnwys y cadwyni archfarchnad mawr, er bod llawer o'r fewnfasnach yn parhau i gadw at bolisi Challenge 21. (Yn ddiddorol ddigon, mae newidiadau diweddar i ddeddf drwyddedu'r Alban yn golygu bod polisi Challenge 25 yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol ledled yr Alban).

Gwasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref

"Heddiw ni ellir cymharu argaeledd alcohol â chenedlaethau blaenorol. O siop y gornel i'r archfarchnad, y dafarn, y siop drwyddedig a'r orsaf betrol, ble bynnag yr ydych yn y wlad hon mae alcohol o fewn cyrraedd pawb... mae gwasanaethau dosbarthu i'r cartref wedi lluosogi yn erbyn y cefndir hwn.

Allan Brown, cyn arweinydd ar atal camddefnyddio cyffuriau ac addysg cyffuriau Heddlu Swydd Gaer (2009)¹⁹

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu newid amlwg o ran ble mae defnyddwyr yn dewis yfed alcohol. Canfu ymchwil gan Alcohol Concern yng Nghymru yn 2010 fod 50 y cant o yfwr yn dweud mai dim ond gartref y maent bellach yn yfed alcohol, a dywed 21 y cant arall eu bod yn yfed cymaint yn y dafarn ag y gwnânt gartref.²⁰ Mae'n debyg bod y cynnydd hwn ym mhoblogrwydd yfed gartref yn deillio o gyfuniad o ffactorau, sef ofn anhrefn yn sgîl goryfed yng nghanol trefi a dinasoedd liw nos a chynnydd yn argaeledd a fforddiadwyedd alcohol yn yr allfasnach, gyda niferoedd cynyddol o archfarchnadoedd yn cynnig alcohol am brisiau rhad iawn. Mae 46 y cant o yfwr yng Nghymru wedi dweud eu bod yn yfed gartref am ei fod yn rhatach gwneud hynny bellach.²¹

Nid yw'n syndod felly, wrth i fwy a mwy ohonom ddewis yfed gartref, fod y farchnad wedi addasu i ateb y galw hwn. Yn arbennig, mae argaeledd gwasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref bob awr o'r dydd a'r nos, lle y gellir archebu alcohol naill ai ar-lein neu dros y ffôn (yn yr achos olaf, yn aml am brisiau drutach o dipyn o gymharu â'r archfarchnadoedd) mewn trefi a dinasoedd mwy eu maint, bellach yn gyffredin ar draws rhannau helaeth o'r wlad, naill ai fel busnesau pwrpasol neu wasanaethau ychwanegol a gynigir gan fwytai tecawê. Ym mis Mawrth 2013, er enghraifft, canfu Heddlu De Cymru o leiaf bedwar busnes yng Nghaerdydd a oedd yn gweithredu gwasanaeth

dosbarthu alcohol i'r cartref, a dau ohonynt yn gwerthu alcohol yn unig (gweler rhagor isod). Dengys tipyn o chwilio ar y rhyngwrwd fod sefyllfa gyffelyb mewn ardaloedd trefol mawr ledled Prydain.

Wrth i gwsmeriaid ddefnyddio'r rhyngwrwd yn fwyfwy fel ffordd i gyrchu nwyddau, mae llawer o'r archfarchnadoedd mawr bellach yn darparu gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ar gyfer bwyd (a nwyddau eraill) drwy eu gwefannau. Yn wir, amcangyfrifodd Dadansoddiad Manwerthu IDG yn 2011 y bydd gwerth y farchnad fwyd ar y rhyngwrwd erbyn 2015 wedi dyblu, gyda disgwyl i werthiannau ar-lein gyrraedd £9.9 biliwn, a disgwyl i oedolion iau yn arbennig gynyddu eu defnydd o wasanaethau dosbarthu'r archfarchnadoedd i'r cartref.²²

Astudiaeth Alcohol Concern Cymru

Fel y dangoswyd uchod, daeth yn fwy anodd yn blynyddoedd diwethaf i bobl ifanc dan oed brynu alcohol mewn tafarndai ac mewn archfarchnadoedd a lleoliadau trwyddedig. Roedd Alcohol Concern am wybod a oedd pobl dan oed, efallai o ganlyniad i'r newidiadau hyn, yn troi at wasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref fel dull amgen i gael gafael ar alcohol.

Yn ystod Ionawr a Chwefror 2013, cwblhawyd arolwg ar-lein dienw byr gan 976 o bobl yng Nghymru rhwng 14 a 17 oed. Hysbysebwyd yr arolwg ar sawl un o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook a Twitter. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo hefyd mewn ysgolion, colegau a mudiadau ieuenctid ledled y wlad.²³ Un o gyfyngiadau'r arolwg oedd iddo gael ei gynnal drwy'r rhyngrwyd ac felly eithriodd y bobl ifanc hynny nad oedd ganddynt fynediad iddo.

Dywedodd 636 (65 y cant) o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu neu wedi ceisio prynu alcohol iddynt hwy eu hunain neu i rywun arall. Roedd 26 y cant o'r ymatebwyr hyn yn 14-15 oed ac roedd 74 y cant yn 16-17 oed. Mae'r canlyniadau isod yn ymwneud â'r 636 o ymatebwyr hyn:

1. Pryniannau alcohol yn gyffredinol

- Dywedodd 50 y cant o'r ymatebwyr ei bod yn "hawdd" ar y cyfan iddynt brynu alcohol, gan gynnwys 24 y cant a ddywedodd ei bod yn "hawdd iawn". Dim ond 15 y cant a oedd yn credu ei bod yn "anodd".

2. Prynu alcohol ar-lein

- Dywedodd 15 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein, a dywedodd saith y cant arall eu bod wedi ceisio prynu alcohol ar-lein ond na fuont yn llwyddiannus. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr o'r grŵp oedran 14-15 oed wedi prynu alcohol yn llwyddiannus ar-lein (21 y cant) nag ymatebwyr o'r grŵp oedran 16-17 oed (13 y cant).

- O blith y rhai oedd wedi llwyddo i brynu alcohol ar-lein, dywedodd 66 y cant eu bod wedi gwneud hynny o fewn yr wythnos ddiwethaf a 22 y cant o fewn y mis diwethaf.
- Dywedodd mwy na dau draean (68 y cant) o'r ymatebwyr ei bod yn "hawdd" prynu alcohol ar-lein, gan gynnwys 43 y cant a oedd yn credu ei bod yn "hawdd iawn".
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lwyddodd i archebu alcohol ar-lein am eu prif resymau dros brynu alcohol yn y ffordd hon. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd am ei bod yn hawdd osgoi profion oedran (66 y cant) ac am ei bod yn gyflym (52 y cant).

3. Prynu alcohol dros y ffôn

- Dywedodd 13 y cant o'r ymatebwyr eu bod wedi llwyddo i brynu alcohol dros y ffôn gan wasanaeth dosbarthu lleol i'r cartref, ac roedd pump y cant wedi ceisio gwneud hynny ond heb llwyddo. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr o'r grŵp oedran 14-15 oed wedi llwyddo i brynu alcohol dros y ffôn (16 y cant) nag ymatebwyr o'r grŵp oedran 16-17 oed (12 y cant).
- O blith y rhai oedd wedi llwyddo i brynu alcohol dros y ffôn, dywedodd 48 y cant eu bod wedi gwneud hynny o fewn yr wythnos ddiwethaf ac 13 y cant o fewn y mis diwethaf.
- Dywedodd mwy na dau draean (68 y cant) o'r ymatebwyr ei bod yn "hawdd" prynu alcohol dros y ffôn, gan gynnwys bron hanner (49 y cant) a oedd yn credu ei bod yn "hawdd iawn".
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a lwyddodd i archebu alcohol dros y ffôn am eu prif resymau dros brynu alcohol yn y ffordd hon. Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd am ei bod yn gyflym (63 y cant) ac yn gyfleus (52 y cant).

Profion prynu

Ar y cyd â'n harolwg ar-lein o bobl ifanc, ar 23 a 30 Mawrth 2013 cynhaliodd Heddlu De Cymru brofion prynu alcohol yng Nghaerdydd drwy wasanaeth dosbarthu i'r cartref oddi wrth rai o'r prif archfarchnadoedd, gan ddefnyddio prynwyr prawf 15 oed.

Ym mhob achos, dywedasant wrth y prynwyr prawf am ddweud celwydd am eu hoedran yn ystod y trafodion ar-lein neu dros y ffôn. Mewn achosion lle y cafodd yr alcohol ei ddsbarthu, pe bai'r dosbarthwr yn gofyn i'r bobl ifanc am brawf adnabod i ddilysu eu hoedran, byddai'r prynwyr prawf yn dweud nad oedd ganddynt ddim prawf adnabod, a phe bai'r dosbarthwr yn gofyn am eu hoedran, y byddent yn dweud yn gywir eu bod yn 15 oed.

Gwnaed cyfanswm o naw prawf prynu o bum archfarchnad, gyda phedair archfarchnad yn cael eu profi fwy nag unwaith.

Ar adeg gwerthu h.y. y trafodyn ar-lein, nodwyd y materion canlynol:

- Gofynnwyd i brynwyr gytuno â'r telerau ac amodau gwerthu, a oedd yn cynnwys bod o oedran gyfreithlon i brynu alcohol, er bod pob un o'r rhain, namyn un, wedi'u harddangos ar dudalen we ar wahân. Mewn un achos, gofynnwyd yn benodol i brynwyr dicio blwch i gadarnhau eu bod yn 18 neu'n hŷn. Ym mhob achos, roedd y system yn dibynnu'n llwyr ar onestrwydd y prynwr ynghylch ei oedran.
- Gellid talu ag unrhyw gerdyn debyd neu gredyd, ac nid oedd angen i fanylion y cerdyn gyd-fynd â'r cyfeiriad e-bost a roddwyd wrth gofrestru na'r cyfeiriad dosbarthu. Os oedd angen cadarnhau a oedd y cyfeiriad dosbarthu yn cyd-fynd â'r cyfeiriad bilio, gallai hyn gael ei gadarnhau gan y prynwr hyd yn oed pan oedd y ddau gyfeiriad a roddwyd yn wahanol mewn gwirionedd.

Polisiâu archfarchnadoedd mawr o ran dosbarthu i'r cartref:

Asda	Os nad oes neb yn y cyfeiriad dosbarthu sy'n 18 oed neu drosodd, byddwn yn gadael hysbysiad o'n hymweliad ac yn dychwelyd y nwyddau i'n siop. Yna byddwn yn cysylltu â chi er mwyn trefnu i'r nwyddau gael eu hailddosbarthu ar adeg sy'n gyfleus. Bydd ein gyrrwr yn gofyn i gwsmeriaid sy'n ddigon ffodus i beidio ag edrych yn 25 neu drosodd ddarparu prawf oedran er mwyn dangos eu bod yn 18 oed neu drosodd. Dim ond i bobl dros 18 oed y gellir dosbarthu'r archebion er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfau gwerthu nwyddau â chyfyngiad oed e.e. alcohol. ²⁴
The Co-operative	Oherwydd cyfyngiadau trwyddedu mae ein gwasanaeth dosbarthu i'r cartref ond ar gael i bobl dros 18 oed. Efallai y gofynnir am brawf adnabod pan gaiff y nwyddau eu trosglwyddo. ²⁵
Sainsburys	Rhaid i chi neu rywun 18 oed neu drosodd ar eich rhan fod ar gael i dderbyn, archwilio a llofnodi ar gyfer eich archeb. Os nad oes neb yn bresennol, ni fyddwn yn gallu gadael nwyddau dan unrhyw amgylchiadau. ²⁶
Tesco	Rhaid i oedolyn 18 oed neu drosodd lofnodi am nwyddau pan gânt eu trosglwyddo. Mae Tesco yn dilyn polisi "Think 21", felly os yw'r person sy'n derbyn y nwyddau yn edrych o dan 21 oed, gofynnir am brawf oedran. Os nad oes prawf ar gael ac os nad oes neb yn y cyfeiriad o'r oedran hwnnw adeg trosglwyddo'r nwyddau, gall y gyrrwr eu cadw. ²⁷
Waitrose	Dim ond gyda rhywun dros 18 oed y gellir gadael nwyddau. ²⁸
Ocado	Rhaid i chi fod yn 18 oed neu drosodd a rhaid eich bod wedi cwblhau'r broses gofrestru er mwyn cymryd rhan yn ein gwasanaeth. Os ydych wedi archebu alcohol gennym ac ni allwch fod gartref ar yr adeg dosbarthu a ddewiswyd gennych, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod person addas yno i dderbyn yr archeb. ²⁹

Ar adeg derbyn yr alcohol, canfuwyd y canlynol:

- Mewn pedwar o'r naw achos (44%), rhoddwyd yr alcohol i'r prynwr prawf dan oed gan yrwyr dosbarthu heb iddynt ofyn am brawf oedran.
- Methodd un archfarchnad ar y ddau ddyddiad y cynhaliwyd profion prynu.

Ar wahân i'r archfarchnadoedd, cafodd Heddlu De Cymru fanylion 11 busnes arall a oedd yn cynnig dosbarthu alcohol i'r cartref yng Nghaerdydd. O blith y rhain, roedd nifer naill ai wedi peidio â masnachu, nid oedd ganddynt drwydded mwyach i werthu alcohol, neu nid oedd modd cysylltu â nhw (er enghraifft nid oedd y rhif ffôn a ddarparwyd yn gweithio bellach). Canfuwyd bod cyfanswm o bedwar busnes yr oedd modd cysylltu â nhw yn gweithredu gwasanaeth dosbarthu i'r cartref:

- Roedd dau yn fwytai tecawê yn gwerthu bwyd yn bennaf, ac nid alcohol oni bai bod bwyd hefyd yn cael ei brynu. Gwrthododd y ddau ddsbarthu oni bai y gallai prawf oedran gael ei ddangos ar adeg trosglwyddo'r nwyddau.
- Roedd y ddau arall yn wasanaethau dosbarthu alcohol yn unig. Roedd un ar agor yn rhy hwyr yn y nos iddo fod yn briodol i brynwr prawf 15 oed ei ddefnyddio; gwrthododd y llall â dosbarthu oni bai y gellid dangos prawf oedran.

Nododd Heddlu De Cymru hefyd y gallai'r 11 busnes a nodwyd ar y dechrau fod yn gyfran fach o'r gwasanaethau dosbarthu alcohol sy'n gweithredu yn ardal Caerdydd. Gallai unrhyw drwyddedai sy'n dal trwydded allfasnach, hynny yw trwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar eu safle, gynnig dosbarthu alcohol mewn egwyddor. Gofynnir i drwyddedeion hysbysu'r awdurdod trwyddedu (yn yr achos hwn Dinas a Sir Caerdydd) os ydynt yn gweithredu gwasanaeth o'r fath, ond nid oes rheidrwydd arnynt i wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Y gyfraith berthnasol sy'n ymwneud â dosbarthu alcohol i'r cartref yng Nghymru a Lloegr

Deddf Trwyddedu 2003: Adran 151

(1)(a) Mae person sy'n gweithio ar safle perthnasol, boed hynny am dâl neu beidio, yn cyflawni trosedd os yw'n dosbarthu alcohol a werthwyd ar y safle i unigolyn y mae'n gwybod ei fod o dan 18 oed

OND

(4) Nid yw'r cymal uchod yn berthnasol lle – (a) y caiff yr alcohol ei ddsbarthu i le y mae'r prynwr neu, fel y bo, y person sy'n derbyn y nwyddau yn byw neu'n gweithio.

Er mwyn egluro, os daw plentyn at y drws a llofnodi am archeb ei rieni gartref, nid oes trosedd wedi'i chyflawni o dan Adran 151.

Trafodaeth ac argymhellion

“Mae'r rhan fwyaf o yfwyr dan oed yn sylweddoli nad yw mor hawdd bellach iddynt gerdded i mewn i siop i brynu alcohol. Mae'r ffactor hwn, ynghyd ag agweddau mwy llac ymhlith rhieni a pherthnasau tuag at yfed alcohol, ynghyd â thwf y rhyngryd, yn creu storm berffaith yn y frwydr yn erbyn yfed dan oed.”

Dr. Adrian Barton, Prifysgol Plymouth (2012)³⁰

Mae canlyniadau ein harolwg o bobl ifanc rhwng 14 a 17 oed yn dangos bod gwasanaethau dosbarthu i'r cartref yn ffynhonnell alcohol sydd ar gael i yfwyr dan oed yng Nghymru. Maent hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau dwy astudiaeth ryngwladol sydd wedi codi pryderon o'r blaen am allu plant a phobl ifanc i gyrchu alcohol oddi wrth wasanaethau dosbarthu i'r cartref dros y ffôn, ac yn fwy diweddar, trwy'r we.^{31 32}

Mae ein harolwg hefyd yn awgrymu mai grwpiau oedran iau, hynny yw plant sydd ymhell o dan yr oed yfed gyfreithlon, sy'n cael rhywfaint o leiaf o'u halcohol drwy'r dulliau hyn. Mae gwasanaethau dosbarthu alcohol i'r cartref yn ffurf unigryw ar argaeledd alcohol yn yr ystyr y caiff alcohol ei werthu gan sicrhau anhysbysrwydd a phreifatrwydd cymharol, i ffwrdd o'r safleoedd gwerthu masnachol traddodiadol.³³ Mynegodd ymatebwyr i'n harolwg eu cred bod y gwasanaethau hyn yn gosod rhwystrau dilysu oedran llai cadarn, a'u bod yn ffordd gyflym a hawdd i gael alcohol, yn enwedig i bobl ifanc yn eu harddegau cynnar a fyddai'n cael mwy o anhawster wrth brynu alcohol eu hunain o siop neu archfarchnad neu dafarn.

Mae methiannau a amlygwyd gan brofion prynu Heddlu De Cymru yn darparu rhagor o dystiolaeth y gall pobl ifanc gael alcohol yn y ffordd hon. Roedd y methiannau hyn, lle roedd prynwyr prawf 15 oed yn gallu prynu alcohol iddynt eu hunain, yn ymwneud ag archebion ar-lein trwy wefannau archfarchnadoedd, a ddosbarthwyd wedyn i'w dewis gyfeiriad. Yn wahanol i'r archfarchnadoedd, roedd y busnesau eraill yng Nghaerdydd oedd yn cynnig dosbarthu alcohol i'r cartref yn bodloni'r

safonau gofynnol ar gyfer dilysu oedran, ac felly nid oedd yn bosibl prynu alcohol ganddynt. Er hyn, gan nad oedd yn ymarferol, nid oedd modd cynnal profion prynu gyda gwasanaethau dosbarthu alcohol yn hwyr y nos yn unig, ac mae'n amlwg bod angen cynnal rhagor o ymchwil er mwyn gweld yn glir a yw methiannau o ran dilysu oedran yn gyffredin ym mhob man neu a ydynt yn ymwneud â gwasanaethau dosbarthu archfarchnadoedd yn unig.

Mae Alcohol Concern Cymru wedi mynegi pryderon o'r blaen am gadernid prosesau dilysu oedran gwefannau sy'n hyrwyddo alcohol, yn enwedig sut mae rhoi dyddiad geni ffug neu dicio blwch cadarnhau oedran yn galluogi defnyddwyr dan oed i weld cynnwys ar wefannau brandiau alcohol a fwriedir ar gyfer oedolion.³⁴ Dangosodd y profion prynu fod dulliau tebyg i'w cael ar wefannau dosbarthu archfarchnadoedd; gallai pobl dan 18 oed brynu yn syml drwy dicio blwch i ddangos eu bod yn cytuno â'r amodau gwerthu cyffredinol, a oedd yn cynnwys adran ar yr oedran yfed gyfreithlon, a thrwy feddu ar gerdyn debyd. Daeth Heddlu De Cymru i'r casgliad, ym mhob achos, bod y system ddilysu ar-lein yn dibynnu'n llwyr ar onestrwydd y prynwr ynghylch ei oedran.

Fel y mae cynrychiolwyr y diwydiant alcohol wedi bod yn awyddus i'w ddweud yn y gorffennol, y prosesau dilysu oedran ar-lein hyn yw'r rhai gorau sydd ar gael,³⁵ ac mae'r problemau hyn yn ymestyn i gynnwys sut y gall plant a phobl ifanc gael eu hatal yn well rhag cael gafael ar gynhyrchion ar gyfer oedolion yn gyffredinol. Mae hyn yn awgrymu, er mwyn rhoi sicrwydd cymharol mai i oedolyn y mae unrhyw alcohol yn cael ei gyflenwi, bod rhaid wrth brosesau dilysu oedran cadarn ar adeg dosbarthu'r archeb. Er hyn, mewn 44 y cant o'r achosion prawf, trosglwyddwyd alcohol i brynwyr prawf dan oed gan yrwyr dosbarthu archfarchnadoedd heb iddynt ofyn am prawf oedran.

Yn ddiddorol ddigon, ac fel yr amlygwyd yn yr adroddiad hwn, nid ymddengys bod dosbarthu alcohol i blentyn neu berson ifanc gartref yn gyfystyr â thorri cyfraith drwyddedu, ar yr amod ei fod wedi cael ei archebu gan oedolyn. Ar y llaw arall, rhaid

holi a yw gweithgarwch o'r fath yn groes i ysbryd y ddeddfwriaeth drwyddedu; mae un o bedwar amcan Deddf Drwyddedu 2003 yn ymwneud â diogelu plant rhag niwed, sydd fel arfer yn cynnwys diogelu pobl ifanc dan 18 oed rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol.³⁶

Mae'r Amodau Trwyddedu Gorfodol, sydd mewn grym ers 2010, yn nodi y dylai cwmnïau sy'n gwerthu alcohol o bell weithredu polisi dilysu oedran.³⁷ Fel y dangoswyd uchod hefyd, mae pob un o'r prif archfarchnadoedd sydd â gwasanaeth bwyd ar-lein, yn nodi'n benodol ar eu gwefannau mai dim ond i oedolyn 18 oed neu drosodd y gellir dosbarthu nwyddau. Gellid tybio mai un o'r rhesymau allweddol y nodir hyn yw er mwyn sicrhau mai dim ond i bobl o'r fath y dosberthir cynhyrchion i oedolion yn unig sy'n rhan o archeb yr archfarchnad, gan gynnwys alcohol. Ymddengys felly, o'r profion prynu, fod archfarchnadoedd heb gadw at eu polisiâu eu hunain, ac o ganlyniad gall plant a phobl ifanc gael gafael ar alcohol y gallent wedyn ei yfed eu hunain.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall plentyn neu berson ifanc sy'n gallu cael gafael ar gerdyn debyd a chyfeiriad e-bost neu sy'n berchen ar y pethau hynny, ac sy'n cytuno â'r telerau ac amodau gwerthu ar y wefan berthnasol, archebu llawer o alcohol o archfarchnad a'i dderbyn drannoeth. Sefyllfa hollol bosibl fyddai un lle y mae person ifanc dan 18 oed yn archebu alcohol o archfarchnad ar-lein ar gyfer parti y bwriedir ei gynnal y noson ganlynol. Mae lleiafrif sylweddol o bobl ifanc yn eu harddegau wedi dweud wrthym eu bod wedi dewis prynu alcohol yn y ffordd hon o fewn yr wythnos ddiwethaf oherwydd, wrth wneud hynny, maent yn fwy tebygol o allu osgoi profion oedran.

Sefyllfa arall, a mwy cymhleth efallai, yw un lle mae oedolyn wedi archebu alcohol o archfarchnad ar-lein, efallai fel rhan o archeb fwyd fwy ei maint, ac yna wedi trefnu i'w blentyn sydd yn ei ardddegau i dderbyn y nwyddau drannoeth ar ei ran. Yn gyfreithiol, byddai'n ymddangos bod gan yrwyr dosbarthu archfarchnadoedd yr hawl i drosglwyddo nwyddau sy'n cynnwys alcohol i berson dan oed mewn achos o'r fath. Er hynny, yn foisol, rhaid holi

a yw hyn yn ymddygiad priodol o gofio na fyddai plentyn neu berson ifanc o'r fath yn gallu prynu'r alcohol ei hun.

Mae hyn yn dod â ni yn ôl at y ddadl nad nwydd cyffredin fel nwyddau cartref eraill mo alcohol, ond yn hytrach sylwedd caethiwus a niweidiol o bosibl, yn enwedig i bobl ifanc, ac y dylid ei drin a'i werthu gan ystyried hynny.

Mae Alcohol Concern yn gwneud yr argymhellion canlynol:

Argymhelliad 1

Dylai archfarchnadoedd a manwerthwyr eraill sy'n darparu gwasanaeth dosbarthu alcohol i'r cartref adolygu eu gweithdrefnau dilysu oedran ar gyfer yr adeg gwerthu a'r adeg dosbarthu, er mwyn canfod a ydynt yn gweithio. Dylai manwerthwyr roi sylw arbennig i egluro i gwsmeriaid bod yn rhaid i archebion sy'n cynnwys alcohol gael eu derbyn gan oedolyn. Dylai manwerthwyr sicrhau bod staff dosbarthu yn cael hyfforddiant priodol am y weithdrefnau yn ymwneud â gofyn am brawf oedran priodol a'i gadarnhau, a dylent gadw at y gweithdrefnau hyn bob tro.

Argymhelliad 2

Dylid cynnal rhagor o ymchwil i weld faint o blant a phobl ifanc sy'n prynu alcohol ar-lein a/neu dros y ffôn. Argymhellir cynnal profion prynu ehangach gan heddluoedd a swyddogion safonau masnach.

Argymhelliad 3

Dylai Llywodraeth Prydain adolygu effeithiolrwydd y gyfraith drwyddedu gyfredol sy'n ymwneud â dosbarthu alcohol i'r cartref, er mwyn canfod a yw'n diogelu plant a phobl ifanc yn ddigonol rhag niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed: Strategaeth camddefnyddio sylweddau Cymru 2008-2018*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
2. Coles, E. A Pates, R. Ar ran Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi) *Costau economaidd a chymdeithasol cyffuriau dosbarth A a cham-drin alcohol yng Nghymru*, Caerdydd, Llywodraeth Cymru.
3. Alcohol Concern (2011) *Ffeithlen: Pobl ifanc ac alcohol*, Llundain, Alcohol Concern,
4. Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010) *Chi, eich plentyn ac alcohol: canllawiau ar yfed alcohol gan blant a phobl ifanc*, Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
5. *ibid.*
6. *ibid.*
7. Llywodraeth Cymru (2012) *Cronfa Ddata Genedlaethol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yng Nghymru 2011/12*, ar-lein, ar gael o: <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/safety/substancemisuse/stats/?lang=en> [cyrchwyd 05/02/2013].
8. Morleo, M. et al. (2010) *Use of fake identification to purchase alcohol amongst 15-16 year olds: a cross-sectional survey examining alcohol access, consumption and harm*, Substance Abuse Treatment, Prevention, and Policy, ar-lein, ar gael o <http://www.substanceabusepolicy.com/content/5/1/12> [cyrchwyd 06/02/2013].
9. DeWit, D. J. et al. (2000) *Age at First Alcohol Use: A Risk Factor for the Development of Alcohol Disorders*, The American Journal of Psychiatry, 157(5), tudalennau 745-750.
10. *op. cit.* Prif Swyddog Meddygol Cymru (2010).
11. Deddf Trwyddedu 2003, a149(1).
12. *ibid.*, a146.
13. Arolwg Ysmygu, Yfed a Defnyddio Cyffuriau (2009), a ddyfynnwyd yn Alcohol Concern (2011) *One on every corner: The relationship between off-licence density and alcohol harms in young people*, Llundain, Alcohol Concern.
14. *op cit.* Morleo, M. et al. (2010).
15. Barton, A. (2012) *CHECKED OUT: The role of ID checks in controlling under-age drinking*, Llundain, Serve Legal.
16. *ibid.*
17. Ar gyfer dadansoddiad manwl o'r ffigurau, gweler Penaethiaid Safonau Masnach Cymru (2010) *Report on underage sales of alcohol in Wales 2009-2010*, ar-lein, ar gael o <http://www.tradingstandards.wales.org.uk/projects/reports.cfm> [cyrchwyd 13/02/2013].
18. *ibid.*
19. Brown, A. (2009) *Alcohol home delivery services: a liberalisation too far?*, erthygl flog, ar-lein, ar gael o <http://www.alcoholpolicy.net/2009/01/last-summer-john-woodhouse-a-contributor-to-a-staffordshire-newspaper-wrote-in-relation-to-the-opening-of-a-24-hour-fast-fo.html> [cyrchwyd 07/02/2013].
20. Taflen Cipolwg Yfed Doeth Cymru *Helping yourself?*, Alcohol Concern, ar-lein, ar gael o www.yfeddoethcymru.org.uk [cyrchwyd 12/04/2013].
21. *ibid.*
22. IGD Retail Analysis (2011) *Online grocery retailing – Building capacity for a digital future*, ar-lein, ar gael o <http://retailanalysis.igd.com/Hub.aspx?id=23&tid=3&nid=7821&app=10> [cyrchwyd 12/04/2013].
23. Mae rhestr o'r ysgolion, mudiadau ieuenticid a cholegau y cysylltwyd â hwy ar gael ar gais gan Alcohol Concern Cymru.
24. Asda, ar-lein, ar gael o <http://groceries.asda.com/asda-estore/common/static/terms-and-conditionscontainer.jsp> [cyrchwyd 12/02/2013].
25. The Co-operative, ar-lein, ar gael o <http://www.co-operativefood.co.uk/whats-hot/home-delivery/terms-and-conditions> [cyrchwyd 12/02/2013].
26. Sainsburys, ar-lein, ar gael o http://www.sainsburys.co.uk/sol/iw_container_page.jsp?pageRef=sites/www/site_furniture/Site_Furniture_DI.page#q17 [cyrchwyd 12/02/2013].
27. Tesco, ar-lein, ar gael o <http://www.tesco.com/groceries/help/default.aspx?name=productTC&rel=help#Q4> [cyrchwyd 12/02/2013].
28. Waitrose, ar-lein, ar gael o http://helpandsupport.waitrose.com/system/selfservice.controller?TOPIC_ID=1129&CONFIGURATION=1006&PARTITION_ID=1&TIMEZONE_OFFSET=null&isSecure=false&CMD=BROWSE_TOPIC [cyrchwyd 12/02/2013].
29. Ocado, ar-lein, ar gael o <http://www.ocado.com/webshop/content/ws5/customerServices/termsAndConditions/purchasetermsandconditions#> [cyrchwyd 14/05/2013].
30. Dr. Adrian Barton, a ddyfynnwyd ar wefan Newyddion y BBC (13 Mehefin 2012) *MP Sarah Wollaston concerned children exploit alcohol loophole*, ar-lein, ar gael o <http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-devon-18420477> [cyrchwyd 11/04/2013].
31. Fletcher, L. A. et al. (2000) *Alcohol home delivery services: A source of alcohol for underage drinkers*, Journal of Studies on Alcohol, 61(1), tudalennau 81-84.
32. Williams, R. S. (2012) *Internet alcohol sales to minors*, Archives of Pediatrics & Adolescent Medicine, 166(9), tudalennau 808-813.

- 
33. op. cit Fletcher, L. A. et al. (2000).
 34. Alcohol Concern Cymru (2011) *New media, new problem? Alcohol, young people and the internet*, Llundain, Alcohol Concern.
 35. ibid.
 36. Manchester, C. et al (2008) *Alcohol & Entertainment Licensing Law*, 2il Argraffiad, Llundain, Routledge-Cavendish, tudalen 118.
 37. Y Swyddfa Gartref (2010) *Selling alcohol responsibly: The new Mandatory Licensing Conditions*, ar-lein, ar gael o <http://www.alcoholconcern.org.uk/assets/files/New%20mandatory%20licensing%20conditions%20-%20Home%20Office%20April%202010.pdf> [cyrchwyd 19/04/2013].

Ar garreg eich drws

Pobl dan oed yn cael gafael ar alcohol
drwy wasanaethau dosbarthu i'r cartref

Alcohol Concern,
Suite B5, West Wing,
New City Cloisters,
196 Old Street,
Llundain, EC1V 9FR
Ffôn: 020 7566 9800
E-bost: contact@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Alcohol Concern Cymru,
8 Museum Place, Caerdydd, CF10 3BG
Ffôn: 029 2022 6746
E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk
Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk/cymru



Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol